



Heddlu Police

DYFED-POWYS

Annwyl **Syr neu Fadam,**

Diolch am roi gwybod i Wasanaeth Heddlu Dyfed-Powys am eich eiddo coll.

NID yw Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn adroddiadau am bob math o eiddo ac ni fyddwn yn cyhoeddi rhifau cyfeirnod eiddo coll gan nad ydym yn ymchwilio nac yn dilysu hawliadau neu gollledion.

Fe'ch cynghorir i anfon y '*Llythyr Hysbysiad Yswiriant*' safonol hwn i'ch Yswiriwr fel cadarnhad o bolisi gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas ag adrodd am Eiddo Coll.

Ni ddylai'r diffyg rhif cyfeirnod annilysu unrhyw hawliad yswiriant.

Am ragor o wybodaeth, galwch heibio i: www.dyfed-powys.police.uk

Cyngor Ynghylch Eiddo a Gollwyd

Gellir cofnodi rhai colledion penodol drwy'r dulliau canlynol:

Os oes gennych rif cyfresol ar gyfer eich eitem, rydym yn argymhell eich bod yn ei chofrestru yn www.immobilise.com ac adrodd am unrhyw golled yn www.reportmyloss.com. Drwy Immobilise, gellir argraffu tystysgrif berchnogaeth â rhif arni sy'n cadarnhau manylion y golled.

Os ydych wedi colli beic pedal, rydym yn argymhell eich bod yn ei gofrestru ac yn adrodd am y golled yn www.bikeregister.com. Mae manylion am golledion sy'n cael eu hadrodd drwy'r dulliau hyn ar gael i heddluoedd ledled y DU. Mae hyn yn sicrhau'r siawns orau o gael eich eiddo yn ôl. Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael i gwmnïoedd yswiriant a darparwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r system NMPR™ a Bike Register.

Os ydych chi'n credu'ch bod chi wedi colli'ch eiddo mewn adeilad/man cyhoeddus neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, megis:

- ❖ *Tŷ trwyddedig (tafarndai, barrau, clybiau ...)*
- ❖ *Adeilad preifat (tŷ, gwesty, hostel ...)*
- ❖ *Adeilad busnes (bwytai, siopau, archfarchnadoedd, swyddfeydd, canolfannau adloniant...)*
- ❖ *Adeilad addysgol (ysgolion, colegau, prifysgolion)*
- ❖ *Trafnidiaeth gyhoeddus (trenau, bysiau)*
- ❖ *Taxis (gan gynnwys cerbydau hurio preifat)*
- ❖ *Meysydd awyr*

... dylech gysylltu â'r sefydliad yn uniongyrchol oherwydd maent yn aml yn gweithredu eu gwasanaeth eiddo coll a chanfyddedig eu hun ac maen nhw mewn gwell sefyllfa i ymdrin â'ch ymholiad.